

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir 22 Mai 2023

SL(6)355 – Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyriwr at Gostau Byw (Cymru) 2023

Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer dileu hyd at £1,500 o fenthyciad ar gostau byw (a elwir hefyd yn fenthyciad cynhaliaeth) myfyriwr israddedig llawnamser ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/2024 o dan amgylchiadau penodol. Ni fydd hyn ar ffurf cyfandaliad arian parod; yn hytrach bydd gweddill benthyciad unigolyn yn cael ei leihau gan y swm priodol y diwrnod ar ôl i ad-daliad cyntaf benthyciwr gael ei wneud.

Dim ond unwaith y gall myfyriwr gael dilead rhannol. Ni all gael dilead rhannol mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd 2023/24 os yw eisoes wedi cael dilead mewn cysylltiad ag unrhyw flwyddyn academaidd flaenorol. Ni fydd gan fyfyriwr hawl i ddilead rhannol os oes unrhyw daliadau neu gosbau heb eu talu neu os yw'n torri ei gytundeb benthyciad neu unrhyw reoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998

Fe'u gwnaed ar: 02 Mai 2023

Fe'u gosodwyd ar: 05 Mai 2023

Yn dod i rym ar: 01 Awst 2023

